# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Elwern

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Elwern yn darparu cymuned ddysgu gynhwysol a Chymreig lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae’r weledigaeth gytûn o fod yn ‘un teulu’ yn treiddio’n llwyddiannus drwy fywyd a gwaith yr ysgol, ar y cyd ag Ysgol Betws Gwerful Goch, sef ysgolion y ffederasiwn.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol y pennaeth mewn gofal, gwaith ymroddedig y penaethiaid cynorthwyol a chefnogaeth ofalgar y staff a’r llywodraethwyr, yn hyrwyddo cydweithio diwyd a chynhyrchiol rhwng cymunedau’r ddwy ysgol.

Dros amser, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod eang o fedrau ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys yn eu mathemateg ac ysgrifennu sy’n datblygu’n gadarn. Ar y cyfan, mae staff yn cynnig cyfleoedd amserol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain. Er hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob tro’n rhoi arweiniad digon penodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith na dyfnhau eu dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion a’r perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig. Mae staff yn fodelau iaith gwerthfawr, ac mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at ddatblygiad medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol chwilfrydig sy’n arddangos agweddau cadarnhaol ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu’n frwd at fywyd a gwaith yr ysgol drwy ystod o grwpiau llais y disgybl. Mae hyn yn eu harfogi i gyfrannu’n gynyddol hyderus at wneud penderfyniadau a meithrin eu medrau arwain yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol i ddisgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu. Darperir trawstoriad cyfoethog o brofiadau dysgu diddorol a chyson, gan gynnwys gweithgareddau mentergarwch hynod effeithiol, i ddatblygu diddordebau a medrau disgyblion yn fwriadus. Er hyn, nid yw’r arferion addysgu mwyaf effeithiol na disgwyliadau staff bob amser yn ddigon cyson ar draws y ffederasiwn i sicrhau bod bob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn eu dysgu.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni, busnesau lleol a’r gymuned ehangach yn elfen hynod effeithiol o waith yr ysgol, gyda disgyblion yn cyfrannu’n werthfawr at weithgareddau a digwyddiadau cymunedol bwriadus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith y ffederasiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae ganddynt

ddealltwriaeth glir a chytûn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni dulliau addysgu effeithiol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer bob disgybl

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd pellach yn eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026